Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Tonyfelin
# Tonyfelin Chapel
# Bedwas Road
# Caerffili
# CF83 3AR

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2012**

**gan**

**Owenna Davies**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod yr wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW
neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

## Cyd-destun

Cylch meithrin cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Tonyfelin sy'n gwasanaethu dalgylch y ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg yn nhref Caerffili, sef Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gymraeg y Castell.

Lleolir y cylch ar gyrion tref Caerffili ar heol brysur sy'n arwain o Gaerffili i Fedwas. Mae'r cylch yn cyfarfod am bedwar bore'r wythnos mewn ystafelloedd eang a leolir y tu cefn i Gapel Bedyddwyr Tonyfelin ac a rentir gan y landlordiaid. Mae'r adeilad yn eang, o wneuthuriad cadarn ac yn darparu toiledau mewnol addas, gan gynnwys cyfleusterau i'r anabl. Ceir mynediad ar wahân i'r Cylch ynghyd ag arwynebedd diogel yn yr ardal chwarae allanol hunangynhwysol. Mae'r ardal fewnol eang a'r lle allanol caeëdig yn lliwgar a deniadol ac yn cynnwys adnoddau ac ardaloedd gweithgaredd a gynlluniwyd yn dda.

Bernir nad yw'r ardal a wasanaethir gan y lleoliad yn ffyniannus, nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Daw'r plant o ystod o gefndiroedd. Yn ystod yr arolwg roedd 20 disgybl ar y gofrestr, gan gynnwys 6 a ariennir i dderbyn Addysg y Cyfnod Sylfaen gan Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Fwrdeistref Sirol Caerffili. Daw chwarter y disgyblion o gartrefi sydd â'r Gymraeg yn famiaith iddynt a phedwar arall lle mae un rhiant yn siaradwr Cymraeg. Mae'r 11 disgybl sy'n weddill yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith.

Nid oes disgyblion ag anghenion ychwanegol na neb o gefndir ethnig a'r Saesneg yn ail iaith iddynt yn mynychu'r cylch ar hyn o bryd.

Mae'r arweinydd presennol wedi bod yn cynorthwyo yn y Cylch ers 1980 ac yn arwain ers 1992. Mae'r 6 aelod o staff yn meddu ar gymhwyster NVQ lefel 3.

Mae'r Pwyllgor Rheoli'r Cylch yn sefydlog.

Derbyniodd y Cylch Dystysgrif Cyflawni Safonau Ansawdd gan Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Caerffili a Chylch Rhagorol dan gynllun Mudiad Ysgolion Meithrin yn 2010.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Gorffennaf 2011. Ni dderbyniwyd unrhyw argymhellion gan yr Arolygydd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae safonau mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda;
- mae bron pob disgybl yn arddangos sgiliau uchel o ddiddordeb, ysbrydoliaeth a chymhelliad;
- mae profiadau dysgu o ansawdd da;
- mae cynllunio ac asesu yn cydblethu ac yn sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu;.
- mae'r berthynas waith yn rhagorol;
- mae pwyllgor rheoli yn cydweithio'n agos â'r staff a'r rhieni i sicrhau bod y safonau uchel mewn cyflawniad a darpariaeth yn parhau ac
- mae'r sefydliad yn rhoi gwerth da am arian.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella'n dda oherwydd:

- mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn rhagorol;
- mae'r tîm cyfan yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn sefydlog;
- mae cynllunio ar gyfer gwelliant yn datblygu'n dda;
- mae'r ymarferwyr yn barod i ymgymryd â blaengareddau newydd ac i dderbyn cyngor; ac
- mae gwelliannau sylweddol eisoes wedi eu gweithredu gan y sefydliad.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1. ymestyn sgiliau'r disgyblion ymhellach ar draws y cwricwlwm:

A2. darparu tasgau a chyfleoedd mwy ymestynnol i'r disgyblion sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt;

A3. sicrhau bod y berthynas gref ac effeithiol rhwng y Pwyllgor rheoli a'r staff yn parhau i fod yn heriol a chefnogol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

*Bydd y sefydliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.*

*Bydd y sefydliad yn ysgrifennu adroddiad astudiaeth achos ar yr agwedd o ragoriaeth mewn strategaeth effeithiol ac effaith ei arweinyddiaeth.*

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**
Mae bron pob plentyn yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd realistig o'i fan cychwyn. Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau, gan weithio'n annibynnol ac ar y cyd am gyfnodau maith. Mae'r mwyafrif yn medru dwyn i gof wybodaeth am brofiadau blaenorol. Mae'r mwyafrif yn ymdopi'n dda wrth ymdrin â sialensiau newydd ac yn llwyddo i ddefnyddio eu sgiliau newydd mewn ystod eang o brofiadau chwarae, gan gynnwys chwarae rôl môr ladron a chartref, ogof rif ac ardal lythrennedd.

Mae'r mwyafrif yn dewis adnoddau, rhwygo, gludo, cynllunio a chreu darluniau gan ddechrau esbonio beth ydynt. Maent yn medru defnyddio offer sgiliau motor mân yn hyderus.

Mae pob plentyn yn medru defnyddio eu cyrff yn hyderus yn ystod sesiynau corfforol ac yn y lle chwarae allanol. Maent yn medru rheoli a lliwio offer gan arddangos rheolaeth dda wrth chwarae â phêl.

Mae'r plant yn gwneud cynnydd da mewn cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg , gwybodaeth a chyfathrebu. Cânt eu cymell i arbrofi ac ymchwilio, cymryd risg,

meddwl yn greadigol a datrys problemau a thrwy hyn ddatblygu sgiliau sy'n eu galluogi i ddod yn ddysgwyr hyderus.

Gwna'r plant gynnydd da mewn perthynas â'u man cychwyn yn y Gymraeg. Mae bron pob un yn medru canu caneuon Cymraeg yn hyderus, ymateb i gyfarwyddiadau a chyfarwyddo eraill mewn sefyllfaoedd cyfarwydd. Mae'r mwyafrif yn medru ymateb i gwestiynau syml yn eu hail iaith, gan ddangos eu bod yn deall Cymraeg sylfaenol pan fydd oedolion yn siarad â hwy. Mae angen mwy o gyfleoedd i ymateb i Gymraeg o safon uwch ar y  rhai mwyaf abl.

Wrth ymateb i'r holiaduron mae'r rhieni yn dangos eu bod yn fodlon iawn â'r cynnydd a wna eu plant..

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn hapus ac yn derbyn gofal da sy'n rhydd o unrhyw ragfarn ac aflonyddwch.

Maent yn ymgartrefu'n dda wrth gyrraedd yn y bore. Mae bron pob un yn medru esbonio beth sydd ganddynt yn eu bocs bwyd, gan ddechrau rhesymu pam.

Maent yn ymateb yn dda iawn i oedolion ac mae safon eu hymddygiad hefyd yn dda iawn. Mae pob un yn dewis gweithgareddau yn hyderus gan weithio'n ddiwyd gydag eraill ac yn annibynnol. Mae eu dyfalbarhad a'u sgiliau canolbwyntio o safon uchel ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau cyflawniad.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r Cylch yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd ag anghenion y plant a'u cymuned. Mae'r tîm yn cydweithio'n dda i sicrhau bod y cynllunio'n  berthnasol ac yn hyrwyddo anghenion datblygiadol pob plentyn.   Canfyddir yr amcanion dysgu yn ddyddiol a chedwir tystiolaeth o werthusiadau, asesiadau ac arsylwadau.  Mae'r rhain yn gymorth i hysbysu'r  cam nesaf yn y dysgu. Gwahaniaethir tasgau i gwrdd ag anghenion pob disgybl. Mae'r rhieni a'r plant yn dechrau cael effaith bositif ar y cynllunio trwy gyflwyno syniadau am brosiectau a diddordebau a chynnig cefnogi'r dysgu trwy rannu arbenigedd.

Mae cyfleoedd i ddatblygu llythrennedd yn gyfoethog yn yr amgylchedd. Mae'r staff yn cymryd pob cyfle posibl i ddatblygu sgiliau ieithyddol y plant.  Anogant hwy i ymateb i gyfarwyddiadau, trafod a defnyddio'r ychydig eirfa sydd ganddynt ynghyd â geiriau newydd perthnasol. Mae rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gynwysedig ym mhob agwedd ynghyd â chyfleoedd i wneud penderfyniadau. Mae datblygu'r iaith Gymraeg a Chymreictod yn rhan annatod o waith y Cylch. Maent yn darparu amgylchedd sy'n galluogi'r plant  i ddatblygu'r sgiliau hyn trwy ddefnyddio'r dull trochi. Hyrwyddir eu dealltwriaeth a'u  gwybodaeth o ddiwylliant a hanes Cymru trwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol. Mae'r Cylch wedi cychwyn darparu mwy o gyfleoedd i'r rhai sy'n rhugl

yn yr iaith i gydweithio â'i gilydd er mwyn ymestyn eu sgiliau ieithyddol. Nid yw'r agwedd hon wedi ei gwerthuso eto.

Defnyddir Helpwr Heddiw i annog y plant i gydweithio â'i gilydd. Anogir hwy i ddatblygu eu dealltwriaeth o degwch a goddefgarwch yn ystod sesiynau Amser Cylch. Caiff hyn effaith bositif ar eu hymddygiad.

**Addysgu: Da**

Mae pob ymarferwr yn ymroddedig ac wedi eu hysgogi'n gryf er mwyn galluogi pob plentyn i gyrraedd safonau uchel. Maent yn deall anghenion y disgybl ac mae ganddynt berthynas dda iawn â nhw. Cynllunnir i ddwysáu a gwella'r dysgu. Maent yn arsylwi yn effeithiol ac yn rhannu'r wybodaeth â gweddill y tîm er mwyn codi safonau a gwella'r ddarpariaeth.

Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau da ac yn mynychu cyrsiau hyfforddi er mwyn diweddaru'u gwybodaeth ynghylch y Cyfnod Sylfaen. Caiff hyn ddylanwad positif iawn ar ansawdd yr addysgu. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da yn gymorth i ddarparu amgylchedd cyfoethog sy'n ysgogol ac yn heriol i greu cyfleoedd gweithgareddau heriol ac ysgogol i'r plant. Gweithredir strategaethau effeithiol er mwyn sicrhau bod y bechgyn yn cael eu hysgogi i ddysgu'r un fath â'r merched. E.e. y gornel môrladron a'r ogof rif.

Mae safon yr asesu'n dda. Mae'r asesiadau cychwynnol, cynlluniau dyddiol, gwerthusiadau, camau nesaf, arsylwadau dyddiol a syniadau'r plant yn gymorth i flaengynllunio. Cofnodir arsylwadau gan bob un o'r ymarferwyr. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a chynhwysir gweithgareddau ymestynnol yn y cynllunio dyddiol i sicrhau fod y plant mwy abl a thalentog yn derbyn yr her briodol. Cofnodir datblygiad yn dda yn y Llyfrau Trosglwyddo. Mae'r rhain ar gael i'r rhieni a gwahoddir hwy i gynnwys sylwadau ysgrifenedig ar ddatblygiad eu plentyn ar ddiwedd y flwyddyn. Trosglwyddir y Llyfrau Trosglwyddo i'r ysgol cyn yn eu rhoi yn ôl i'r rhieni ar ôl iddynt ddefnyddio'r wybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel iawn i bob plentyn. Maent wedi derbyn safon aur "Cynllun Bwyta'n Iach Caerffili". Mae'r ymarferwyr yn gosod esiampl dda ac yn annog ymddygiad da, moesau a pherthynas gadarnhaol. Defnyddir gwahanol offer yn effeithiol i hybu agwedd bositif tuag at ddysgu. Anogir y plant i weithio gydag erial. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd da ac yn annog y disgyblion i adlewyrchu ar sut maen nhw ac eraill yn ymddwyn.

Derbyniodd y Cylch adroddiad positif iawn gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) Ni ddynodwyd unrhyw faes i'w ddatblygu.

Ceir cysylltiadau gyda gwasanaethau arbenigol gan sicrhau gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol pan fo angen.

Mae'r lleoliad yn bodloni rheoliadau a chyfrifoldebau diogelu. Mae'r trefniadau yn cael eu diweddaru a'u harchwilio'n gyson i sicrhau diogelwch y disgyblion sy'n mynychu'r Cylch. Mae trefniadau mynediad a gadael y Cylch yn effeithiol ac yn cael

eu monitro'n ofalus. Mae pob ymarferwr yn cael ei ddiweddaru'n gyson ynglŷn â diogelu plant trwy hyfforddiant pwrpasol. Arweinydd y Cylch sy'n gyfrifol am amddiffyn plant a materion diogelu ac mae'n darparu arweiniad a chymorth i'r ymarferwyr eraill.

Nid oes disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r Cylch ar hyn o bryd. Mae trefniadau mewn lle i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gael.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r Cylch yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol i bob teulu. Mae llyfrau amlddiwylliannol, "Persona Dolls" ac adnoddau eraill ar gael yn y Cylch a defnyddir hwy'n effeithiol i gynorthwyo plant i deimlo'n gartrefol gyda diwylliannau eraill. Cynhelir digwyddiadau amlddiwylliannol i ddathlu amrywiaeth.

Cynllunnir yr amgylchedd yn dda a defnyddir pob ardal er budd dysgu'r plant. Mae'r cyntedd eang yn lliwgar a chroesawgar. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r ystafell eang agored a'r brif ardal addysgu. Mae'r arddangosfeydd yn dwysáu'r dysgu ac yn berthnasol i'r themâu a'r testunau presennol.

Mae'r ardal allanol yn ysgogol a diogel. Mae'r arwynebedd yn feddal ac addas ac mewn cyflwr da. Mae'r wal uchel yn cysgodi'r ardal rhag yr elfennau ac yn rhwystr i ymwelwyr digroeso.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a'r ethos cryf o dîm yn eithriadol a gwelir hyn yn y cynnydd da iawn a wna'r plant mewn cyfnod byr. Darperir gofal, cymorth ac arweiniad arbennig ar gyfer pob un. Defnyddir y sefydliad yn gyson fel esiampl o arfer da a derbyniodd nifer o ymweliadau grŵp ac unigol yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr eraill yn cydweithio'n agos iawn gan roi ymdeimlad o bwrpas ac o welliant parhaus i waith y lleoliad. Gwnânt yn siŵr fod y Cyfnod Sylfaen a blaengareddau cenedlaethol eraill yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus ac yn cael effaith bositif ar safonau. Mae addysgu a dysgu yn cael eu rheoli'n dda iawn ac mae gweithdrefnau eglur yn bodoli i sicrhau bod polisïau'r Cylch yn cael eu gweithredu. Mae gan bob ymarferwr ddealltwriaeth eglur o'i rôl a'i gyfrifoldebau ac maent yn rheoli eu hamser yn ofalus yn ystod y sesiwn. Mae'r arweinydd yn barod iawn i dderbyn Cyngor ac mae'n adlewyrchu'n feirniadol ar ei gwaith.

Mae bron pob ymarferwr wedi bod yn gweithio yn y Cylch ers cyfnod maith. Nid ydynt yn hunanfodlon ond maent yn gweithio'n ddiwyd i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau er budd dysgu'r disgyblion.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli presennol yn frwdfrydig, yn heriol a chefnogol. Mae ganddynt ddiddordeb ym mherfformiad a diddordebau'r ymarferwyr a'r disgyblion.

Hyrwyddant a marchnata addysg Gymraeg yn frwd iawn ac mae hyn yn arwain at y safonau uchel a adlewyrchir yn safon addysg y plant. Mae aelodau presennol y pwyllgor wedi cyflawni'r swyddi ers nifer o flynyddoedd. Maent wedi dangos ymrwymiad a theyrngarwch i'w rôl trwy fod yn rhieni i blant a fynychodd y Cylch neu wedi eu cyflogi fel ymarferwyr cyn ymuno â'r pwyllgor rheoli.

Mae'r bartneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol yn gryf ac effeithiol. Cyflawnwyd nifer o dargedau'r flwyddyn bresennol ac mae eraill yn y broses o'u datblygu.

Mae pob un o'r holiaduron a ddychwelwyd yn cadarnhau gwaith rhagorol y pwyllgor rheoli i sicrhau bod eu plant yn datblygu'n sylweddol uwch na'u disgwyliadau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r prosesau hunan arfarnu yn datblygu'n dda a, thrwy hyn, mae nifer o welliannau wedi digwydd dros y tair blynedd diwethaf. Gwelir hyn yn yr Adroddiadau Blynyddol a'r Cynllun Datblygu Blynyddol . Mae pob ymarferwr yn cyfrannu i'r broses o hunan arfarnu a rhennir gwybodaeth yn y cyfarfodydd staff. Anogir y rhieni, plant a'r ymarferwyr i gymryd rhan weithredol yn natblygiad y Cylch a rhoddir ystyriaeth lawn i'w syniadau, gan weithredu arnynt lle bod hynny'n bosibl a chânt ymdeimlad o wneud gwahaniaeth.
Mae ansawdd y cynllunio yn dda a defnyddir y Ffeil Hunan Werthuso yn rheolaidd i adolygu'r gwelliannau. Mae'r prosesau a'r trefniadau hyn wedi cael effaith bositif iawn ar ddatblygu'r ymarfer a chodi safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ystod eang o weithgareddau gyda'r partneriaethau yn cyfrannu'n arwyddocaol i gyflawniad a lles y plant. Ceir partneriaeth effeithiol iawn gydag adran addysg yr awdurdod lleol a chyda nifer sylweddol o wasanaethau ac asiantaethau eraill. Maent yn cydweithio'n agos iawn gyda'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a cheir trosglwyddiad llyfn i'r plant rhyngddynt. Caiff y rhieni wybodaeth reolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn sicrhau pob cyfle posibl iddynt fod yn rhan o ddysgu eu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol ar gyfer addysgu holl agweddau'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn cael eu trefnu'n dda i wneud y defnydd gorau o'u hamser, arbenigedd a phrofiad. Rheolir yr adnoddau'n ofalus ac adolygir hwy'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli dealltwriaeth drwyadl o'r gyllideb gan flaenoriaethu eu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Mae penderfyniadau gwariant yn cael eu gwerthuso'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cael effaith bositif ar ddatblygiad addysgol a lles y plant. Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

Llenwyd yr holiaduron gan y mwyafrif o'r rhieni a mynegwyd barnau cadarnhaol iawn am y lleoliad.  Teimlant fod eu plant yn gwneud cynnydd da iawn a'u bod yn mwynhau mynychu'r Cylch. Maent yn teimlo bod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgolion cynradd. Nodant fod y staff yn hawdd sgwrsio â hwy a bod eu plant wedi ymgartrefu'n dda. Credant fod y Cylch yn cael ei reoli'n dda iawn. Ymatebion i drafodaethau gyda'r plant:

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn hapus i siarad am eu gweithgareddau gyda'u ffrindiau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Owenna Davies | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn. (www.estyn.gov.uk)